**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 17 Tachwedd 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A Davis | S Joy | J D McGettrick |
| H M Morris | F D O'Brien | A J O'Connor |
| R V Smith | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith

**Swyddog(ion)**
Helen Morgan Rees, Cyfarwyddwr Addysg)
Kate Phillips (Pennaeth Dysgwyr Diamddiffyn)
Alison Lane (Pennaeth y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol)
Kelly Small (Pennaeth y Tîm Cynllunio ac Adnoddau)
David Thomas (Prif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion)
Michelle Roberts (Swyddog Craffu)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, B Hopkins, S M Jones a/ac S E Keeton

---

10 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

11 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

12 **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 27 Hydref 2022 gan y Panel.

## 13 Llythyrau

Nodwyd y llythyr at yr Aelod Cabinet yn deillio o'r cyfarfod blaenorol gan y Panel.

## 14 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 15 Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol - Diweddariad (eitem briff gwylio)

Diolchodd y Panel i Kate Phillips (Pennaeth Dysgwyr Diamddiffyn) ac Alison Lane (Pennaeth y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol) am eu hadroddiad a oedd yn rhoi'r cefndir a diweddariad o ran sefyllfa Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Abertawe. Amlinellwyd y cynnydd hyd yma, y llwyddiannau a'r heriau, y strategaeth ddiwygiedig a'r cymorth, darpariaeth ôl-16, y Bwrdd Iechyd Lleol a gweithgarwch y blynyddoedd cynnar.

Yna trafododd y pwyllgor y canlynol:

- A oedd y syniad o weithredu mewn ffordd sy'n niwtral o ran cost yn ddisgwyliad optimistaidd gan Lywodraeth Cymru ac a yw'r disgwyliad hwnnw'n effeithio ar y gweithredu yma.
- Darpariaeth Ôl-16 a'n cysylltiadau â cholegau
- Pa fath o hyfforddiant sydd ar gael, sut rydym ni ac ysgolion yn rheoli hyn ac yn sicrhau ymagwedd gyson.
- Sut rydym yn gwahaniaethu rhwng ADY a phlant y gall fod angen iddynt ddal i fyny, er enghraifft ar ôl COVID.
- Sut mae gofynion cymorth i ddysgwyr yn cael eu nodi a hyd yr amser i roi cymorth ar waith.

## 16 Gwariant y Grant Datblygu Disgyblion ar ddisgyblion diamddiffyn

Cafodd y Panel gyflwyniad PowerPoint gan Kelly Small (Pennaeth y Tîm Cynllunio ac Adnoddau). Roedd y cyflwyniad yn edrych ar y defnydd o'r grant datblygu disgyblion (GDD) yn ysgolion Abertawe ac yn amlinellu cynnydd gydag argymhellion y Cabinet a gefnogwyd gan y Pwyllgor Polisi. Yn dilyn ymweliadau ag ysgolion yn ystod yr hydref, ystyriwyd cynlluniau GDD ysgolion fel rhan o'r broses honno.

Cododd y Panel y pwyntiau canlynol:

- Gostyngiad rhagamcanol mewn incwm gwario teuluoedd a'r cynnydd posib yn nifer y disgyblion y mae angen cymorth arnynt ac a ydym yn barod am y cynnydd hwn.
- Defnyddio'r grant GDD ar gyfer disgyblion unigol nad ydynt efallai'n dod o fewn y GDD, os oes angen, yn hytrach na chymorth cyffredinol i ddisgyblion sy'n derbyn y grant.

## 17 Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Cyflwynodd David Thomas, Prif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion, yr adroddiad gan roi gwybodaeth gefndir ac amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran y Gwasanaeth Gwella Ysgolion.

Trafododd y Panel y pwyntiau canlynol:

- Trafodwyd pwysigrwydd ysbrydoli plant gan y byd gwaith, yn benodol y cyfleoedd a fydd yn cael eu cynnig ac sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan y Fargen Ddinesig.
- Pwysigrwydd creu cysylltiadau da â'r lleoliadau addysg uwch ac addysg bellach a byrddau arholi.
- Pwysigrwydd edrych ar ba gymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol h.y., Partneriaeth Sgiliau Abertawe a'u gwaith ar gymhwysedd digidol o ran dysgwyr a staff.

18 **Cwricwlwm Newydd i Gymru - Diweddariad (eitem briff gwylio)**

Darparodd David Thomas, Prif Ymgynghorydd Gwella Ysgolion, y cyntaf o ddau adroddiad a drefnwyd eleni a fydd yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mewn ysgolion.

Gofynnodd y Panel am ansawdd a chost y rhaglen hyfforddi a ddarperir gan Partneriaeth, a yw'n fuddiol ac yn gost effeithiol.

19 **Adborth gan Grwp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth**

Nododd y Panel yr adborth gan Gynullydd y Panel mewn perthynas â Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth ar 24 Hydref 2022.

20 **Cynllun Gwaith 2022 - 2023**

Nodwyd y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00pm

**Cadeirydd**